Creu **twll i lyffantod**

Hoffech chi fyw yn rhywle tywyll, gwlyb ac oer? Efallai ddim, ond dyna'n union y mae llyffantod diog yn chwilio amdano.

Byddwch angen

- Hen botyn blodau clai tua 20cm ar y top
- Trywel
- Dail, mwsog a gwellt

1 Dewisiwch ardal sy'n oer, cysgodol ac o'r ffordd. Byddai o dan lwyn yn arbennig o addas, rhywle na fyddai pobl eraill yn ei ganfod.

2 Palwch dwll tua 10cm o ddyfnder a'r un hyd â'ch potyn. Os gallwch, palwch y twll yn wynebu'r de.

3 Rhowch y potyn yn y twll ar ei ochr fel ei fod wedi'i hanner gladdu. Dylai ceg y potyn wynebu'r de (oddi wrth rhan fwya'r gwynt a'r glaw).

4 Llenwch y potyn i'w hanner gyda dail, mwsog a gwellt a gwasgarwch fwy o gwmpas y potyn. Nawr arhoswch nes bod llyffant yn dewis eich potyn fel ei gartref yn ystod y dydd.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).